YELLOW KITE
Attachment Support Service for Schools

Promoting inclusion...

www.theyellowkite.co.uk
admin@the yellowkite.co.uk

# *'Mae'n Brifo Tu Mewn'*

## Cefnogi disgyblion sydd wedi dioddef trawma perthynas sylweddol neu sydd wedi colli rhywun agos

### Diwrnod 1:

Mae'r diwrnod hyfforddiant hwn yn addas ar gyfer amrywiaeth fawr o weithwyr proffesiynol a rhieni/gofalwyr sy'n awyddus i ddeall sut mae gwneud i blentyn gofidus deimlo'n gartrefol yn y byd addysg. Diben y cwrs ydy ysbrydoli a dangos bod modd i bawb gyfrannu a gwneud gwahaniaeth yn y maes hwn waeth beth fo'u swyddogaeth neu gyfrifoldebau. Bydd y diwrnod hefyd yn annog pobl i wneud pethau mewn ffordd ychydig yn wahanol yn yr ysgol gan ddefnyddio fframwaith ymlyniad er mwyn deall ymddygiad fel ffordd o gyfathrebu.

**Themâu fydd yn cael sylw:**

- Adnabod disgyblion allai fod yn dioddef
- Deall bod angen egluro pethau mewn ffordd wahanol i rai disgyblion oherwydd ansicrwydd ymlyniad
- Deall pam bod buddsoddi mewn perthynas yn hanfodol er mwyn addasu a gwella
- Gwahaniaethu rhwng tasgau emosiynol a chymdeithasol a'r gwahanol ddisgwyliadau
- Y system nerfol a'r amgylchiadau gorau ar gyfer dysgu
- Rheoli Straen neu Reoli Ymddygiad?
- Ymddygiad fel ffordd o gyfathrebu
- Gwneud cyswllt fel cam cyntaf
- Gwir natur straen eilradd
- Gofal staff
- Y fframwaith ymlyniad
- Effaith trallod ar ddatblygiad plentyn
- Deall ymlyniad yn yr ysgol
- Helpu'r plentyn i ddeall ei fod yn ddiogel
- Cyd-reoli
- Cadw rhywun mewn cof
- Datblygu hunaniaeth gref